Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, Mai'r 13eg, 2009 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Y Maer Cyng Edward Thomas, Y Dirprwy Faer Cyng Charlotte Leadbeater, Y Cyng Colin Jenkins (Cadeirydd), Y Cyng Roy Davies, Y Cyng Julia Jones, Y Cyng Dawn Wallace.
Clerc y Dref
Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau Y Cyng Richard Wallace, Y Cyng Chris Parish

Cof 29 / Mai/ 09 Nid oedd Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

Cof 30 / Mai / 09 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio

E/20850 Amrywio amod 2 cais cynllunio E/20123, diwygio cynllun y pafiliwn tennis ym Mharc Le Conquet.
CANIATAWYD

Cof 31 / Mai / 09 Ni Wrthodwyd unrhyw Gynllunio.

Cof 32 / Mai/ 09 Nid oedd Apeliadau Cynllunio

Cof 33/ Mai /09 Nid oedd Materion Cludiant a Phriffyrdd

Cof 34 / Mai / 09 Adroddiad y Swyddog Technegol

Dywedodd Mr Davies fod dyfynbrisiau ar gyfer y goleuadau argyfwng wedi'u derbyn ac y byddant yn cael eu hagor yn y cyfarfod Cyllid. Hefyd, agorir y dyfynbrisiau am glirio rhandir y Cyngor yn y cyfarfod Cyllid. Bwriedir trafod dyfynbrisiau am osod gwres yn nhoiledau Neuadd y Sir er mwyn lleihau anwedd yn y Cyfarfod Cyllid hefyd.

Cof 35 / Mai /09 Gohebiaeth

1. Yr Ymddiriedolaeth Ddinesig yng Nghymru – Manylion am Brosiect Drws Agored 2009. Bydd y Cyng Roy Davies yn eu darllen ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Llawn.
2. CSC – cyfeirlyfr o wasanaethau bws lleol. Nodwyd
3. Nell Hellier- Canolfan Adeiladu Cynaliadwy. Nodwyd.
4. Menter Cwm Gwendraeth – Gweithdy ar Gynllun Ynni Adnewyddadwy. Nodwyd.

5. Caroline Ferguson, Swyddog Llwybrau Troed CSC – bwriad i osod gât sydd wedi mynd ar goll ger yr Hydd Gwyn.
6. Gwahoddiad i gyfarfod Fforwm Gweithredu Lleol CSC. Nodwyd.

Cof 36 / Mai/ 09 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys oherwydd amgylchiadau arbennig, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Adroddodd y Dirprwy Faer y Cyng Charlotte Leadbeater bod wal mynwent yr eglwys sydd wrth ymyl Heol yr Eglwys mewn cyflwr gwael. Cytunwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at Mr Peter Davies er mwyn i gyngor yr Eglwys fod yn ymwybodol o'r sefyllfa. Dywedodd y Swyddog Technegol fod un o weldiadau postyn baner yr Eglwys wedi torri. Gallai hyn arwain at ddamwain. Bydd y Clerc yn cynnwys yr wybodaeth hon yn y llythyr at Gyngor y Plwyf.
Dosbarthodd y Cyng Fran Murphy fanylion cais yr oedd hi a'r Cyng Ros Bellamy wedi'i baratoi ar gyfer cystadleuaeth Pentref y Flwyddyn a noddir gan Nwy Calor. Gwahoddodd y Cyng Murphy aelodau i ychwanegu unrhyw bwyntiau a fyddai o ddefnydd i'r cais.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.26 p.m.